# Y Swyddfa Ymchwil i Heriau Lleol

# Egwyddorion Creu ar y Cyd â Chymunedau Lleol

## I bwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gweithio gyda chymunedau i gynnal ymchwil yn seiliedig ar le. Ei nod yw cynnig adnodd atgyrchol i wella gallu ymchwilwyr a chymunedau i ystyried cymhlethdodau cyd-greu, er enghraifft:

- rhoi cyfle i bawb, pwy bynnag ydynt, i gymryd rhan;
- gwneud yn siŵr bod pobl yn berchen ar eu syniadau;
- a dod o hyd i ffyrdd o gyd-greu newid sy'n parhau.

Lluniwyd yr egwyddorion gan y Swyddfa Ymchwil i Heriau Lleol a thîm o ymchwilwyr ac ymarferwyr ym Mhrifysgol Abertawe yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar le. Mae'r canllaw hwn yn ffordd o gefnogi academyddion ym Mhrifysgol Abertawe a'n partneriaid i hwyluso ymchwil sy'n cael ei chreu ar y cyd ac annog lefel uwch o gydberchnogaeth. Fodd bynnag, rydym yn gweld 'lle' a chyd-greu fel pethau y mae gan bawb ddiddordeb cynyddol ynddynt a'n gobaith yw y bydd y canllaw o gymorth a diddordeb i eraill.

## Pwy yw fy nghymuned?

Wrth i ni siarad am gymuned, yn y bôn, mae hyn yn golygu'r bobl rydych yn eu gweld, yn cwrdd â nhw neu'n cysylltu â nhw'n rheolaidd yn eich bywyd a'ch busnes pob dydd. Bydd pob un ohonom yn perthyn i lawer o gymunedau drwy gydol ein bywydau. Gellir dehongli cymuned mewn llawer o ffyrdd ond mae rhai mathau nodweddiadol o gymuned yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Cymunedau Lle | Eich cymdogion, grwpiau cymunedol lleol, busnesau, pobl rydych chi'n eu gweld wrth fynd o fan i fan yn eich bywyd pob dydd. |
| Cymunedau Ymarfer | Y bobl rydych chi'n gwneud gweithgaredd gyda nhw'n rheolaidd, boed hynny'n hobi, yn weithgaredd cymdeithasol neu'n broffesiynol. |

| | |
|---|---|
| Cymunedau Diddordeb | Pobl rydych chi'n rhannu diddordeb, nodwedd neu nod â nhw. Gallai hyn cynnwys dieithriaid mewn grŵp ar-lein neu grŵp diddordeb. |
| Cymunedau Defnydd | Pobl sy'n gysylltiedig drwy eitem neu wasanaeth, megis pobl sy'n yfed coffi neu ddinasyddion sy'n derbyn cymorth gwasanaethau cymdeithasol gan gyngor lleol. |

Yng nghyd-destun cyd-greu gweithgareddau, mae gweithio gyda chymunedau'n golygu cynnwys y bobl hynny sy'n gysylltiedig mewn rhyw ffordd â'r maes diddordeb, y lle neu'r ymarfer. Mewn ffordd, mae ymchwil sy'n cael ei chreu ar y cyd bob amser yn gweithio gyda chymunedau o gymunedau. Gall hyn fod yn ddryslyd pan fyddwn yn sôn am gyd-greu 'cymunedol', felly yn ymarferol mae hyn yn golygu ein bod yn ceisio cynnwys pobl sydd â diddordeb uniongyrchol yn y prosiect ymchwil, gan gadw'r prosiect ar raddfa y gellir ei rheoli.

## Beth yw cyd-greu a pham mae'n bwysig?

Mae cyd-greu yn un o lawer o eiriau a ddefnyddir i ddisgrifio'r ffyrdd y gall pobl gymryd rhan yn y broses o greu rhywbeth. O ran ymchwil, mae hyn fel arfer yn golygu bod gan bawb sy'n ymwneud â phrosiect ymchwil rywfaint o ddylanwad a rheolaeth ar y prosiect ei hun a'u cyfranogiad personol. Mae hyn yn wahanol i'r mathau traddodiadol o ymchwil lle gall academydd fod wedi cynnal ymchwil ar bobl neu i bobl. Yn hytrach na *gwneud ymchwil i bobl,* rydym bellach yn siarad am *wneud ymchwil gyda phobl.*

Fel diffiniad cyffredinol, yn y Swyddfa Ymchwil i Heriau Lleol, dyma ein dealltwriaeth o gyd-greu:

> *Proses lle gall cymunedau gydweithio mewn partneriaeth gyfartal mewn lleoedd cydweithredol, yn gwerthfawrogi ac yn adeiladu ar gryfderau'r holl gyfranogwyr i nodi heriau lleol a chwilio am atebion cyfiawn.*

Fodd bynnag, i gyflawni hyn mae angen ymagwedd egwyddorol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r egwyddorion y mae'r LCRO yn bwriadu eu mabwysiadu i gynnal ymchwil ac annog y rhai sy'n gweithio yn yr LCRO i wneud yr un peth.

## Oes rhaid i mi gyd-greu?

Drwy ddiffiniad, rhaid i gyd-greu fod yn hollol wirfoddol a chydsyniol. Fel ymchwilwyr sydd am weithio gyda chymunedau, rydym yn awyddus i gymunedau gymryd rhan lawn mewn prosiectau ymchwil a bod yn berchen arnynt. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw hyn bob amser yn bosib nac yn ddymunol am lawer o resymau. Rhaid i ymchwil sy'n cael ei chreu ar y cyd roi cyfle

i unigolion gyfrannu at ymchwil ar eu telerau eu hunain, hyd yn oed os yw hynny'n golygu dewis peidio â chymryd rhan. Felly, nid cyd-greu fydd yr opsiwn gorau bob amser a rhaid iddo fod yn ddewis sydd wedi'i gyfiawnhau a'i resymu'n dda.

Mae'n ddefnyddiol meddwl am hyn ar sail graddau cyfranogiad. Efallai y bydd pob aelod o gymuned yn dymuno cymryd rhan mewn prosiect ymchwil i raddau gwahanol. Model defnyddiol i feddwl am hyn yw'r Sbectrwm Cyfranogiad a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Cyfranogiad Cyhoeddus (IAP2, gweler Ffigur 1).




***Ffigur 1*** *- Sbectrwm cyfranogiad (IAP2). Mae'r saethau'n cynrychioli graddau cynyddol o gyfranogiad (yn hytrach na chyfres gynyddol o gamau dilynol).*

Mae'r model hwn yn gweld cyfranogiad o safbwynt yr ymchwilydd, o ran sut gall gynnwys pobl mewn ymchwil. Mae'n amrywio o'r lefel leiaf a goddefol o gyfranogiad (hysbysu) hyd at gyfranogiad uchaf a gweithredol (grymuso). Ar y lefel isaf, mae 'hysbysu' yn golygu cynnig rhannu syniadau o dystiolaeth â phobl i'w helpu i ddeall problem neu feddwl am ffyrdd posib o'i datrys. Ar y pegwn arall, mae 'grymuso' yn golygu bod y gymuned â rheolaeth lwyr ar brosiect, o'r dechrau i'r cam gwerthuso. Ym model IAP2, gall unrhyw lefel o gyfranogiad fod yn briodol ac nid oes unrhyw fath delfrydol o gyfranogiad. Yn hytrach na hynny, mae'n adnodd i helpu i feddwl am y ffyrdd y gallai pobl ddymuno cyfranogi.

## Datblygu'r egwyddorion

Aethom ati i ddatblygu'r egwyddorion drwy gyfeirio at amrywiaeth eang o arbenigedd sydd eisoes yn bodoli. Rydym yn cydnabod nad ni yw'r rhai cyntaf i wneud hyn ac roeddem yn awyddus i adeiladu ar waith pobl eraill. Dyma rai enghreifftiau pwysig mewn cyd-destunau eraill:

- Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
- The Co-production Collective (UCL)
- The Oxfam Co-creation toolkit

Dechreuon ni drwy adolygu ymchwil i gyd-greu, ymgysylltu a chyfranogiad. Gwnaethon ni hefyd chwilio am fodelau presennol o gyd-greu gan sefydliadau sy'n ei ddefnyddio yn eu gwaith, megis elusennau, cyrff anllywodraethol a chyrff llywodraethol. Nododd yr adolygiad hwn amrywiaeth o ddogfennau defnyddiol (sydd wedi'u rhestru ar ddiwedd y canllaw hwn). Darllenon ni'r rhain ac ysgrifennu nodiadau am eu syniadau allweddol am gyd-greu. Ar ôl ystyried pob un yn ofalus gan ystyried ein gwerthoedd a'n cyd-destun ni, gwnaethom eu trefnu'n themâu ac yna eu mireinio i greu egwyddorion. Cyflwynwyd yr egwyddorion hyn i grŵp o arbenigwyr i ofyn am

eu barn a cheisio adborth, ac yna aethom ati i'w mireinio. Canlyniad y broses hon yw'r egwyddorion yn y canllaw hwn.

Roedd dwy ffynhonnell allweddol yn llywio datblygiad ein hegwyddorion. Un o'r prif bethau a ysbrydolodd ddatblygiad yr egwyddorion cyd-greu oedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Dyma fframwaith deddfwriaethol arloesol sy'n hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, lles i bawb a chydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus a phobl. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno pum ffordd o weithio - tymor hir, integreiddio, cynnwys, cydweithredu ac atal - sy'n cydweddu'n agos â'r gwerthoedd sydd wrth wraidd yr egwyddorion cyd-greu.

Yr ail ffynhonnell allweddol oedd Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned er mwyn Grymuso a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019. Llywiodd y canllaw ategol hwn ein hegwyddorion ni, ac mae'n cydweddu'n sylweddol o ran cysyniad er gwaethaf y cyd-destun gwahanol. Roedd yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddangos prosesau cyd-greu trylwyr a chyflwyno fframwaith hygyrch wedi'i ysgogi gan werthoedd. Er i ni geisio efelychu agweddau ar eu hymagwedd, datblygwyd ein hegwyddorion yn annibynnol a'u teilwra i'n nodau penodol gan adlewyrchu cyd-destun cyd-greu ymchwil yn seiliedig ar le.

Drwy'r broses hon, ein gobaith yw y gall egwyddorion cyd-greu gefnogi ymchwil ar sail cymunedau sy'n cael effeithiau cadarnhaol y tu hwnt i allbynnau academaidd. Rydym yn eich annog i ddefnyddio'r canllaw hwn fel man cychwyn i fyfyrio, ac yna i addasu ac ehangu'r egwyddorion, yn ôl yr angen, fel eu bod yn addas ar gyfer pob cyd-destun unigryw.

# Egwyddorion Cyd-greu'r Swyddfa Ymchwil i Heriau Lleol

1. **Perthnasoedd Parhaus**
   Meithrinwch gysylltiadau a chydweithrediadau hirdymor yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth, cyd-ymddiriedaeth a chyd-ofal.
2. **Llais y Gymuned**
   Parchwch wybodaeth ac arferion lleol a sut maent yn llywio dealltwriaeth o asedau, anghenion a chyfleoedd.
3. **Tystiolaeth Leol**
   Meithrinwch gyd-ddealltwriaeth drwy ddysgu am brofiadau lleol a defnyddio tystiolaeth yn seiliedig ar le i helpu pawb i ddeall y darlun mwy.
4. **Cydberchnogaeth**
   Gwnewch yn siŵr bod pŵer ac adnoddau'n cael eu rhannu'n deg fel bod cyfraniadau pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u gallu i gyfranogi'n cael ei barchu.
5. **Hawdd ei gyrraedd**
   Archwiliwch yn barhaus sut i wneud lleoedd ac arferion yn fwy hygyrch a chroesawgar i gymunedau lleol cynrychioladol.
6. **Y Tymor Hir**
   Grymuswch gymunedau i gynnal newid yn annibynnol drwy ddefnyddio neu addasu adnoddau, gwasanaethau a pherthnasoedd sydd eisoes yn bodoli.

# 1. Perthnasoedd Parhaus

*Meithrinwch gysylltiadau a chydweithrediadau hirdymor yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth, cyd-ymddiriedaeth a chyd-ofal.*

Yn aml gall newid cadarnhaol ac effaith gynaliadwy mewn ymchwil ddeillio o berthnasoedd tymor hir a'r ddealltwriaeth ddofn o leoedd a phobl sy'n deillio o dreulio amser gyda phobl. Drwy gyswllt rheolaidd, gall y rhai sy'n rhan o'r ymchwil ddeall ei gilydd yn well a datblygu'r ymddiriedaeth sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â chymhlethdodau cyd-greu.

Mae lefel uchel o gynefindra â chymuned a'i chyd-destunau yn creu ymdeimlad llawer mwy cadarn ynghylch unrhyw heriau sy'n codi, pa ymatebion a allai fod yn briodol ar gyfer lle neu gymuned penodol, a lle gall ymchwil sy'n cael ei chreu ar y cyd fod o fudd i bawb. Ar y cyd â'n gallu ni fel ymchwilwyr i ddatblygu a rhannu ymwybyddiaeth gyfannol o heriau lleol a thystiolaeth amdanynt, gall hyn ein galluogi i gefnogi cymunedau i ddeall eu sefyllfaoedd yn well.

Dros amser, ein gobaith yw annog a galluogi cymunedau i gymryd rhan mewn rhyw lefel o gyd-greu ymchwil yn eu hamser eu hunain ac ar eu telerau eu hunain. Rydym yn cydnabod bod pobl, perthnasoedd a heriau oll yn newid a bod angen i'n gwaith ni fod yn hyblyg ac yn agored i dwf neu hyd yn oed tynnu'n ôl os yw hynny'n briodol.

Cwestiynau Atgyrchol:

1. Pam y mae creu cysylltiadau hirdymor yn bwysig yn eich gwaith ac yn eich bywyd personol?
2. Meddyliwch am gyfeillgarwch neu berthynas waith a barodd amser hir. Sut gallai'r egwyddorion hyn wella'r ffordd rydych chi'n cysylltu â phobl mewn prosiectau sy'n cael eu creu ar y cyd?
3. Sut gall bod yn hyblyg a gallu addasu yn eich perthnasoedd helpu wrth gydweithredu, mewn ymchwil ac mewn sefyllfaoedd pob dydd?

# 2. Llais y Gymuned

*Parchwch wybodaeth ac arferion lleol a sut maent yn llywio dealltwriaeth o asedau, anghenion a chyfleoedd.*

Mae cyd-greu llwyddiannus yn galw ar gyfranogwyr i gadw meddwl agored am ffyrdd amrywiol o feddwl a gwerthfawrogi pob llais a chyfraniad, gan gydnabod nad oes unrhyw ymagwedd unigol yn effeithiol ym mhob sefyllfa. Un o gryfderau craidd cyd-greu yw'r potensial i ddod â llawer o safbwyntiau gwahanol ynghyd er mwyn darparu dealltwriaeth gyfannol o broblem neu syniad na fyddai modd i un person ei chyflawni. Mae hyn yn golygu y dylid croesawu a gwerthfawrogi credoau, galluoedd, diwylliannau a phryderon pob cyfranogwr.

Ar ben hynny, dylai cyd-greu effeithiol geisio cynrychiolaeth briodol, a dylid sicrhau bod y cyfranogwyr yn cynrychioli croestoriad rhesymol o'r cymunedau perthnasol. Pan fo cyfranogwyr yn ymrwymo i amrywiaeth ac yn ei pharchu, gallant gyflawni dealltwriaeth fwy cymhleth o faterion lleol a gweithio tuag at gyd-greu diben a gweledigaeth cyffredin sy'n gallu ennyn brwdfrydedd y cyfranogwyr a'u sbarduno i weithredu.

Felly, mae llywodraethu gofalus a chyfrifoldeb cymunedol yn bwysig i gyd-greu ymchwil er enghraifft, wrth sicrhau myfyrio egwyddorol am y lleisiau sy'n cael eu cynrychioli a'u gwerthfawrogi drwy gydol y broses gyd-greu i osgoi rhagfarn ddiarwybod. Mae'n bwysig mabwysiadu safbwynt ar sail asedau hefyd. Mae hyn yn golygu gwneud ymdrech i lywio trafodaethau oddi wrth yr hyn sydd ar goll neu'r hyn na ellir ei wneud ac yn hytrach canolbwyntio ar fapio a thynnu ar yr hyn y gellir ei wneud ar y cyd ynghylch unrhyw faterion mae cymuned yn eu hwynebu.

***Cwestiynau Atgyrchol:***

1. Pam y mae'n bwysig gwrando ar farnau gwahanol wrth wneud penderfyniadau, nid mewn ymchwil yn unig, ond mewn meysydd amrywiol mewn bywyd?
2. Meddyliwch am amser pan oedd un llais yn mynnu'r holl sylw mewn trafodaeth. Sut gallai ystyried lleisiau eraill fod wedi cael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa? Sut gellid bod wedi cynnwys lleisiau eraill?
3. Pam y mae cyfathrebu effeithiol a deall safbwyntiau gwahanol yn bwysig. Sut gallwn annog hyn mewn lleoliad cymunedol heb gymryd rheolaeth ar y broses gyd-greu?

# 3. Tystiolaeth Leol

*Meithrinwch gyd-ddealltwriaeth drwy ddysgu am brofiadau lleol a defnyddio tystiolaeth ar sail lle i helpu pawb i ddeall y darlun mwy.*

Mae cyd-greu da'n sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at safbwyntiau a thystiolaeth cyfannol a'u deall.

Mae datblygu cyd-ddealltwriaeth yn dod yn gyntaf. Mae hyn yn golygu creu lle i wrando'n weithredol ar eich gilydd, gan werthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau, a gwerthfawrogi gwybodaeth leol. Mae parhau i wrando'n arbennig o bwysig i'r rhai â gwybodaeth broffesiynol gref, gan ei fod yn sicrhau bod prosesau cyd-greu wedi'u llywio gan ffactorau ar sail lle a chyd-destunol sy'n llywio enghreifftiau lleol o heriau cymdeithasol mwy.

Yn ogystal, mae gan hwyluswyr rôl bwysig wrth gyflwyno ac esbonio tystiolaeth leol gymhleth i lywio ymdrechion cyd-greu. Gallant sbarduno cyfranogiad drwy addysgu cymunedau am ymchwil, ystadegau a pholisi perthnasol mewn perthynas â'r materion lleol maent wedi'u nodi. Neu, gall cymunedau nodi materion ac yna archwilio tystiolaeth sydd eisoes ar gael, wedi'i chasglu a'i hesbonio gan hwylusydd.

Mae'n hanfodol cynnwys ymarferwyr lleol sydd eisoes yn bodoli. Mae'r rhai hynny sy'n cefnogi'r gymuned, megis darparwyr gwasanaeth, elusennau a busnesau lleol, yn meddu ar ddealltwriaeth werthfawr o heriau lleol. Er ei bod hi'n amhosib cynnwys pawb, dylai cyd-greu nodi a pharchu'r wybodaeth, y profiad a'r dystiolaeth sydd ganddynt.

Gall triongli gwybodaeth gymunedol, macro-dystiolaeth a dealltwriaeth o ymarfer lleol fod yn ffordd effeithiol o lywio ymchwil ar y cyd. Gan ystyried y gost uchel o ran adnoddau sydd ynghlwm wrth gyd-greu, rhaid pwyso a mesur anghenion a chyfleoedd lleol yn ofalus i sicrhau dosbarthiad cyfiawn o arbenigedd ymchwil.

***Cwestiynau Atgyrchol:***

1. Sut mae ystyried gwybodaeth a thystiolaeth leol yn gwella'r broses benderfynu, mewn ymchwil ac mewn agweddau eraill ar fywyd?
2. Meddyliwch am amser pan wnaeth gwybodaeth leol eich helpu i ddeall problem. Sut daethoch chi ar draws yr wybodaeth hon a sut gwnaeth helpu? Sut gallwn ni sicrhau bod tystiolaeth dda ar gael i gymunedau a'u bod yn ei deall wrth gyd-greu?
3. Pam y mae'n bwysig i ymchwil, yn enwedig cyd-greu ymchwil, gyfrannu at newid cadarnhaol, nid mewn cymunedau neu feysydd penodol yn unig, ond hefyd gan fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ehangach.

# 4. Cyd-berchnogaeth

*Gwnewch yn siŵr bod pŵer ac adnoddau'n cael eu rhannu'n deg fel bod cyfraniadau pawb yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu gallu i gyfranogi'n cael ei barchu.*

Yn union fel y gall cymunedau negodi lefel eu cyfranogiad mewn prosesau cyd-greu, mae cyd-greu'n cynnwys lefel o gyfrifoldeb. Felly, dylai cyfranogwyr cyd-drafod lefel briodol o hwyluso, cydlynu a gwerthuso â'r prif ymchwilydd o'r dechrau. Rhaid esbonio'n glir i bob parti i ba raddau y gall ymchwilydd ymyrryd yn y broses a'i harwain.

Mae strwythurau sy'n hwyluso cyd-berchnogaeth yn allweddol, gan sicrhau na fydd unrhyw un llais neu gymuned yn cael blaenoriaeth. Dylai'r ymchwilydd wirio bod cyfranogwyr yn groestoriad da o'r gymuned berthnasol a dylai ystyried yn ofalus sut gellir clywed a deall pob llais. Mae hyn yn broses atgyrchol barhaus, gan fod anghenion a dynameg bŵer yn gallu newid. Fodd bynnag, mae ystyriaethau rhesymol yn cynnwys ymrwymo adnoddau i gyfieithu, ceisio lleoliadau hygyrch neu gyhoeddi canlyniadau mewn termau syml. Yn yr un modd, dylai cyfranogwyr deimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan y grŵp cyfan a dylai hwyluswyr fod wedi'u paratoi i reoli gwrthdaro posib.

Rhaid i ymchwilwyr fod yn barod i ildio pŵer dros gyfeiriad ac ymrwymo i fod yn dryloyw ynghylch adnoddau, yn enwedig pan fo cyllid wedi'i ddarparu. Er ei bod hi'n gymhleth rhannu adnoddau ariannol yn uniongyrchol (yn enwedig â phoblogaethau sy'n agored i niwed), gall y gymuned gyfeirio sut caiff adnoddau eu defnyddio. Yn bwysicach na hyn, dylai canlyniadau cyd-greu gael eu cyd-drafod a'u rheoli gan gyfranogwyr ac ni ddylai prosesau academaidd araf amharu arnynt. Er enghraifft, gellir cyd-gynllunio allbynnau megis darparu hyfforddiant, adborth, gwerthusiad neu gymorth i fod yn ystyrlon yn lleol.

***Cwestiynau Atgyrchol:***

1. Pam y mae'n dda cydweithio a gwneud penderfyniadau fel tîm mewn grwpiau prosiect gwahanol yn ogystal ag mewn ymchwil?
2. Cofiwch amser pan oedd prosiect grŵp yn gweithio'n dda. Sut gallai'r syniad o rannu perchnogaeth weithio mewn sefyllfaoedd gwaith tîm eraill, a pham y mae'n bwysig mynd i'r afael â heriau gyda'ch gilydd?
3. Sut gall gweithio'n gydweithredol a negodi cyd-berchnogaeth effeithio'n gadarnhaol ar gyd-greu ymchwil a chyfrannu at gyfranogiad parhaus gan gymuned?

# 5. Hawdd ei Gyrraedd

*Archwiliwch yn barhaus sut i wneud lleoedd ac arferion yn fwy hygyrch ac yn groesawgar i gymunedau lleol cynrychioladol.*

Dylai cyd-greu effeithiol wneud ymdrech i flaenoriaethu cynhwysiant a hygyrchedd i bawb y mae'r ymchwil yn effeithio arnynt. Mae ymgysylltu â’r cyhoedd yn aml yn rhoi gormod o sylw i ychydig o’r lleisiau mwyaf swnllyd ac mae potensial am or-gynrychiolaeth. Mae gweld y tu hwnt i leiafrif swnllyd yn galw am ystyriaeth ac ymgynghori gofalus ynghylch sut i groesawu a chynnwys pob llais. Rhaid i ymchwilwyr a chyfranogwyr ddangos parodrwydd i addasu; mae unrhyw ddiffyg cynrychiolaeth yn awgrymu heriau wrth gyrraedd y prosiect ymchwil neu gymryd rhan ynddo.

Felly, ni all ymchwil ar y cyd fabwysiadu ymagwedd safonol, rhaid iddi weithio yn unol â thelerau'r cymunedau. Mae hyn yn golygu bod yn agored i'r hyn a allai allgáu neu ddieithrio pobl ac yn ymatebol i hynny, gan gynnwys dewis lleoliad ac amser, defnydd o iaith neu ieithoedd a'r ymrwymiad amser a ddisgwylir. Bydd ystyriaethau penodol yn amrywio fesul cymuned, gan alw am ragweld problemau ynghylch anabledd, oedran, rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, cyflogaeth, hil ac iaith ymhlith eraill. Er ei bod hi'n hanfodol darparu ar gyfer anghenion amrywiol, mae'n hollbwysig cydnabod y terfynau a bennir gan adnoddau ac amser cyfyngedig.

Yn bwysicaf oll, dylai cyfranogwyr deimlo eu bod wedi'u parchu, a bod eu gwybodaeth a'u barn yn cael eu gwerthfawrogi (oni bai bod y rhain yn anoddefgar). I gyflawni hyn, mae angen i'r ymchwilydd fod yn atgyrchol yn fwriadol a gall fod angen hyfforddiant ar y cyfranogwyr. Mae ymgysylltu'n feirniadol yn bwysig; mae cydnabod anghydbwysedd pŵer mewn grwpiau cymdeithasol a mynd i'r afael â hyn yn rhan annatod o gyd-greu llwyddiannus. Felly, wrth feithrin perthnasoedd mewn cymunedau, mae angen rhoi sylw gofalus i ddynameg a thensiynau lleol er mwyn meithrin ymddiriedaeth gyda phob grŵp. Mae gwrando'n ofalus ar wybodaeth leol a chanfod lleisiau pwy sy'n cael eu clywed (neu nad ydynt yn cael eu clywed) a phwy all fod ar ei ennill o weithgareddau ac allbynnau sy’n cael eu creu ar y cyd yn hanfodol er mwyn cyflawni gweithgareddau a chanlyniadau wedi’u creu ar y cyd.

***Cwestiynau Atgyrchol***

1. Pam y mae'n bwysig sicrhau bod pawb yn gallu bod yn rhan o brosiect, yn y gwaith ac yn y gymuned?

2. Meddyliwch am amser pan oedd hi'n anodd i rywun gymryd rhan. Sut gall gwneud pethau'n fwy hygyrch fod yn ddefnyddiol mewn sefyllfaoedd amrywiol, yn enwedig wrth gyd-greu ymchwil lle mae cynwysoldeb yn hanfodol?
3. Sut gall canolbwyntio ar hygyrchedd helpu i feithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau mewn cymunedau, nid mewn prosiectau penodol yn unig ond mewn cyd-destunau ehangach hefyd?

# 6. Y Tymor Hir

*Grymuswch gymunedau i gynnal newid yn annibynnol drwy ddefnyddio neu addasu'r adnoddau, y gwasanaethau a'r perthnasoedd sydd eisoes yn bodoli.*

Dylai'r cyflawniadau mae cymunedau'n eu creu ar y cyd fod yn gynaliadwy. Gall hyn fod yn anodd pan fydd prosiectau'n dibynnu ar gyllid a chyfranogiad ymchwilwyr; mae'r strwythurau a hwylusodd newid yn dod i ben yr un pryd â'r cymorth ariannol. I rymuso cymunedau i feithrin eu cyflawniadau a grëwyd ar y cyd yn annibynnol, rhaid rhoi mesurau rhagweithiol ar waith yn gynnar yn y broses.

Mae'n bwysig bod y rhai sy'n rhan o gyd-greu yn cymryd rhan weithredol yn y gymuned y tu hwnt i brosiectau penodol, er mwyn meithrin perthnasoedd parhaus. Felly, mae'n bwysig bod yn dryloyw ac yn onest am alluoedd ac adnoddau y tu hwnt i brosiectau penodol er mwyn rheoli disgwyliadau ac atal gorddibyniaeth.

Dylai ymdrechion wrth gyd-greu ymchwil geisio bod yn gynaliadwy, heb ddibynnu ar gyllid parhaus ac adnoddau allanol. Er enghraifft, ym mhob cyd-destun lleol, dylid defnyddio neu wella'r adnoddau a'r strwythurau sydd eisoes ar gael. Gall fod aelodau o'r gymuned sy'n barod i gael eu hyfforddi neu i arwain neu gynnal canlyniadau prosiect, yn enwedig fel rhan o'u cyflogaeth arferol. Lle mae asedau cymuned wedi cael eu mapio neu eu defnyddio, gellir rhoi darpariaeth ar waith i sicrhau ymwybyddiaeth leol a defnydd parhaus.

Yn olaf, dylai prosesau cyd-greu sbarduno newid mewn systemau a diwylliant. Mae nodi cyfleoedd newydd am gydweithredu, effeithlonrwydd ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol yn allweddol. Fodd bynnag, heb ymrwymiad i newid ar lefel sefydliadol, gall strwythurau pwerus rwystro'r trawsnewid a ddymunir. Er mwyn i lwyddiannau prosiect barhau, rhaid bod parodrwydd lleol a sefydliadol i ymrwymo i newid a myfyrio'n barhaus ar sut i wella; mae potensial cyd-greu yn gyfyngedig heb ymrwymiad ar y cyd i newid ar lefelau sefydliadol ac unigol.

***Cwestiynau Atgyrchol:***

1. Pam y mae'n dda cynllunio ar gyfer y dyfodol yn eich gwaith a'ch bywyd, gan feddwl y tu hwnt i nodau diymdroi?
2. Ystyriwch brosiectau rydych chi'n ymwybodol ohonynt a barodd am amser hir. Beth gyfrannodd at eu llwyddiant hirdymor? Sut gallai hyn weithio ar gyfer cyd-greu ymchwil?
3. Pam y mae ymrwymiad i welliant parhaus yn bwysig wrth feithrin newid hirdymor? Sut gallwn ni annog y math hwn o newid ynom ni ein hunain ac yn y grwpiau rydym yn gweithio gyda nhw?

# Cyfeiriadau

Mae'r egwyddorion yn y ddogfen hon yn synthesis o syniadau o'r adnoddau canlynol:


Better Together. Principles of Engagement (Ail Argraffiad). Government of South Australia.

Collins, K. ac Ison, R. (2009). Jumping off Arnstein's ladder: Social learning as a new policy paradigm for climate change adaptiation. *Environmental Policy and Governance, 19*, 358-373.

Geekiyanage, D., Fernando, T., a Keraminiyage, K. (2021). Mapping participatory methods in the urban development process: A systematic review and case-based evidence analysis. *Sustainability, 13*, 8992.

International Association of Public Participation. *Public Participation Pillars.*

Jull, J., Giles, A., a Graham, D. (2017). Community-based participatory research and integrated knowledge translation: advancing the co-creation of knowledge. *Implementation Science, 12*(150).

Leino, H. a Puumala, E. (2021). What can co-creation do for the citizens? Applying co-creation for the promotion of participation in cities. *EPC: Politics and Space, 39*(4), 781-799.

Nicolaidis a Raymaker (2020). The SAGE Handbook of Action Research.

Participation Cymru. Yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru. Egwyddorion Ymgysylltu â'r Cyhoedd er mwyn Grymuso.

Rosen, J. a Painter, G. (2019). From citizen control to co-production. *Journal of the American Planning Association, 85*(3), 335-347.

Wildman, J. M., Valtorta, N., Moffatt, S., a Hanratty, B. (2019). 'What works here doesn't work there': The significance of local context for a sustainable and replicable asset-based community intervention aimed at promoting social interaction in later life. *Health and Social Care in the Community, 29*, 1102-1110.

Whyte, F. W. (2011). *Participatory Action Research*. Sage Research Methods.

Vargas, C., Whelan, J., Brimblecombe, J., ac Allender, S. (2022). Co-creation, co-design and co-production for public health: A perspective on definitions and distinctions. *Public Health Research & Practice, 32*(2), e3222211.